Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

22 Mai, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd, fel aelodau o gymuned yr ysgol, yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel yn ystod yr amgylchiadau presennol. Fel corff o staff, rydym yn gweld eisiau ein disgyblion yn fawr. Er ein bod ar wahân, rydym yn parhau i fod yma i gefnogi, estyn cymorth a rhoi arweiniad.

Yr wythnos hon, carwn eich hysbysu o'r isod:

Ail-agor graddol ysgolion

Cadarnhaf nid yw'r sefyllfa yng Nghymru wedi newid. Nid oes unrhyw ddyddiad wedi ei gyhoeddi ar gyfer ail-agor graddol ysgolion yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru.

Rydych yn ymwybodol bod Prifysgol Aberystwyth wedi cynnig yn garedig adeiladau a chyfleusterau pwrpasol inni fedru addysgu ynddynt tan ddiwedd naturiol Tymor yr Haf, sef Gorffennaf 2020. Rydym wedi cytuno mai gofod ar Gampws Penglais y Brifysgol fydd ar gael i ni. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda'n gilydd ac mewn trafodaethau er mwyn cwblhau'r trefniadau ymarferol o ran sut gall hyn weithio, a hynny o fewn cyfyngiadau'r Llywodraeth. Nid ydym yn gwybod eto os bydd angen inni weithredu ar y trefniadau wrth gefn hyn, ond gwell paratoi ar eu cyfer er mwyn sicrhau y bydd grwpiau o ddisgyblion Penweddig yn medru ail-ymuno â'u haddysg ffurfiol ar yr un pryd â phob disgybl tebyg arall yn y sir. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Brifysgol am eu cyd-weithrediad parod iawn yn y cynlluniau hyn. Hoffwn bwysleisio eto mai cynlluniau wrth gefn ydy'r uchod, ac nad oes unrhyw gyhoeddiad ar y gweill o ran disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol. Pan ddaw'r cyhoeddiad hwnnw, byddwn yn gweithredu'n unol â'r canllawiau ar y pryd.

Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13

Heddiw yw'r diwrnod pryd y dylwn ni, fel ysgol, ffarwelio â chi cyn i chi ddechrau ar gyfnod eich arholiadau. Rydym ni fel staff yn drist iawn nad ydym ni wedi cael y cyfle i ddweud hwyl fawr a dymuno pob lwc i chi yn iawn.

Eleni, mae'r sefyllfa bresennol yn golygu bydd rhaid i ni ffarwelio â chi mewn ffordd wahanol. Rydym ni wrthi'n paratoi i wneud hyn gyda chi ar ôl hanner tymor. I helpu gyda hyn, rydym ni angen eich lluniau o'ch atgofion chi o Benweddig. Gall rhain fod yn luniau 'leavers' blaenorol, lluniau timoedd neu luniau o deithiau tramor neu neges fideo ffarwel. Os ydych chi wedi prynu siwt neu wisg newydd ar gyfer eleni, hwn yw'r cyfle i'w arddangos! Danfonwch eich lluniau at Mr John Gofal12a13@penweddig.cerdigion.sch.uk neu Miss Wyn Gofal10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk os ydych chi eisiau i ni eu cynnwys.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau gyda'r trefniant o osod gwaith a deunyddiau defnyddiol i'ch helpu i bontio i'r 6ed dosbarth, i brifysgol neu i fyd gwaith. Sicrhawn ein bod yma i chi hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd er mwyn rhoi'r gofal, cymorth ac arweiniad i chi. Mawr obeithiwn cawn gyfle, yn y dyfodol, i fedru ffarwelio gyda chi'n swyddogol yn yr ysgol.

Blwyddyn 9 – Cychwyn tasgau TGAU wedi'r Sulgwyn

Yn dilyn cyhoeddiad y blociau opsiynol TGAU ar gyfer disgyblion blwyddyn 9, mi fydd tasgau yn cael eu darparu ar "Show My Homework" sy'n adlewyrchu dewisiadau eich plentyn. Bydd yr amserlen isod yn weithredol o'r 1af o Fehefin. Mi fydd y disgyblion yn derbyn 3 tasg y pythefnos yn y pynciau craidd, ac yn derbyn 2 dasg y pythefnos ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig. Mi fydd y pynciau opsiynol yn darparu 2 tasg y pythefnos.

	TGAU Newydd (Bl 9) New GCSE (Yr9)								
	Craidd / Core						Opsiynau / Options		
	Mathemateg Mathematics	Gwyddoniaeth Science	Saesneg English	Cymraeg Welsh	Y Fagloriaeth The Baccalaureate	Chwaraeon Games	Opsiwn 1 Option 1	Opsiwn 2 Option 2	Opsiwn 3 Option 3
Wythnos 1 Week 1	2	1	2	1	1	1	1	1	1
Wythnos 2 Week 2	1	2	1	2	1	1	1	1	1

Nodyn pwysig i bob disgybl
Wythnos **2** fydd hi ar yr amserlen ar 01.06.20

Bwletin tîm bugeiliol wythnosol

Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol yn cael ei rhannu yn y bwletin gan y tîm bugeiliol yn wythnosol, sydd yn cynnig cefnogaeth i'ch plentyn, yn ystod y cyfnod anodd yma.

Holiadur cenedlaethol i blant a phobl ifanc

Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chomisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru a'r Senedd Ieuenctid, wedi lansio arolwg ar-lein i wneud yn siŵr ein bod yn clywed ac yn gwrando ar yr hyn sydd gan blant a phobl ifanc i'w ddweud am y pandemig Coronafeirws a'r newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i hynny.

Mae hwn yn gyfle i plant a phobl ifanc i ddweud wrth Llywodraeth Cymru am eu teimladau ynglyn â'r lockdown : sut mae hyn wedi amharu ar eu hiechyd, unrhyw bryderon sydd ganddynt; a'r effeithiau posib ar eu haddysg, ac hefyd unrhyw deimladau

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

cadarnhaol sydd ganddynt o'r profiad hyn. Mae'r holiadur wedi cael ei ddatblygu a'i wirio gan blant a phobl ifanc. Bydd y holiadur yn helpu'r Llywodraeth i ymateb wrth i'r sefyllfa ddatblygu yn y ffordd orau posib, ac i wybod sut i siarad ac i gyd-weithio â phlant a phobl ifanc yn ystod a thu hwnt i'r argyfwng yma.

Rydyn ni angen eich help er mwyn sicrhau bod dysgwyr Penweddig yn cael y cyfle i ddweud eu dweud. Mae'n bwysig nodi bod yr holiadur yn helpu dysgwyr i gael help os ydy elfennau ohono yn achosi iddyn nhw i boeni neu deimlo'n isel.

Disgwylir iddo gymryd 15 munud i'w gwblhau ac mae'n bosib i'w wneud ar unrhyw ddyfais wrth ddilyn y ddolen. Bydd y ddolen yn cau ar y 27ain o Fai. Bwriedir cyhoeddi'r canlyniadau yn fuan ar ôl i'r holiadur cau.

Gweler y linc i'r holiadur yma - https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirwsafi/

Cylchlythyr digidol Penweddig- rhifyn Mai 2020

Mae cylchlythyr digidol "Pobl Penweddig" ar gael i chi ddarllen ar wefan yr ysgol. Carwn ddiolch yn fawr iawn i Mrs Rachel Jenkins a Miss Hawis Lloyd am gasglu'r erthyglau a golygu'r rhifyn. Diolch yn fawr iawn hefyd i Mr Jonathan Brayley sydd wedi llunio'r cylchgrawn a'i diwyg drwy ddefnyddio rhaglen "PagePlus". Mae'r cylchgrawn digidol yn dathlu a chodi ymwybyddiaeth o lwyddiannau niferus a phrofiadau'r disgyblion, staff a rhieni. Mynnwch gip ar ein newyddion diweddaraf.

Ffarwelio gyda staff yr ysgol

Rydym yn ffarwelio gyda Mrs Sian Richards ar ddiwedd yr hanner tymor hwn. Carwn ddiolch yn fawr i Mrs Richards am ei chyfraniad gwerthfawr i dîm Penweddig dros y blynyddoedd. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd yng Ngholeg Ceredigion. Gobeithiwn cawn gyfle i ffarwelio gyda Mrs Richards yn swyddogol maes o law.

Byddwch yn derbyn gohebiaeth bellach gennyf ar ddydd Gwener, 5ed o Fehefin er mwyn eich hysbysu a'ch diweddaru o unrhyw newyddion a newidiadau i'r drefn. Mae croeso i chi hefyd f'ebostio drwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Gan ei fod yn Wyliau'r Sulgwyn yr wythnos nesaf, ni ddisgwylir i ddisgyblion gwblhau tasgau ysgol.

Mawr obeithiaf y cewch wyliau hapus gyda'ch teulu yn gwneud gweithgareddau amrywiol ac yn mwynhau cwmni eich gilydd.

Cadwch yn ddiogel a chymerwch ofal.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

22 May, 2020

Dear Parents, Guardians and Pupils,

I sincerely hope that you and your families, as members of our School community, continue to keep healthy and safe during this present time. As a team of staff, we are really missing our pupils. Despite being apart, we are here to support, help and provide guidance.

This week, I would like to inform you of the following:

Gradual re-opening of schools

I confirm that the situation in Wales has not changed. No date has been announced or published by the Welsh Government regarding the gradual reopening of schools in Wales.

You are aware that Aberystwyth University has kindly offered buildings and resources, so that we may provide education up until the natural end of the Summer Term in July 2020. We have agreed that the space available to us will be on the University Penglais Campus, and we are now working together to finalise the logistics of how this will work, within the parameters of Government restrictions.

We do not know yet whether we will need to act upon these contingency arrangements but it is better to have them in place so that groups of pupils from Penweddig will be able to rejoin their formal education at the same time as their peers elsewhere in the county. We are very grateful to the University for their willing co-operation in putting these arrangements in place. We would like to reiterate that these are contingency plans and that no announcement is being made about pupils returning to the school. When that announcement is made, we will act according to the guidelines at the time.

Year 11 a Year 13 – Continuation of task-setting

Today is the day when, as a school, we should have bid farewell to you before the examination period. We, as staff, are sad that we have not had the chance to say good-bye or wish you good luck properly.

This year, the present situation means that we will have to say good-bye in a different way. We are preparing to do this after the half-term. To help us with this, we would like to send pictures of your memories of Penweddig. These could be previous “leavers” pictures, school sports team pictures, pictures from your school trips and visits or a farewell video message. If you have bought a suit or a dress for this year, this is a chance for you to show it off! Please send your pictures to Mr John Gofal12a13@penweddig.cerdigion.sch.uk or Miss Wyn Gofal10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk if you would like us to include them.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

In the meantime, we will continue with the arrangement of setting work and useful materials to help you with the transition to the 6th Form, to University or to the world of work. We will ensure that we are here for you until the end of the academic year in order to provide care, support and guidance. We hope that we will be able to formally say good-bye in school, in the future.

Year 9 – Starting GCSE courses after Whitsun

Following the announcement of the GCSE option columns for year 9 pupils, tasks will be set on "Show My Homework" which will reflect the subjects chosen by your child. The timetable below will start on the 1st of June. The pupils will receive 3 tasks per fortnight for each core subject, and 2 tasks per fortnight for the Welsh Baccalaureate. The optional subjects will receive two tasks per fortnight. We will start on week 2.

	TGAU Newydd (Bl 9) New GCSE (Yr9)								
	Craidd / Core						Opsiynau / Options		
	Mathemateg Mathematics	Gwyddoniaeth Science	Saesneg English	Cymraeg Welsh	Y Fagloriaeth The Baccalaureate	Chwaraeon Games	Opsiwn 1 Option 1	Opsiwn 2 Option 2	Opsiwn 3 Option 3
Wythnos 1 Week 1	2	1	2	1	1	1	1	1	1
Wythnos 2 Week 2	1	2	1	2	1	1	1	1	1

Important reminder for all pupils
It will be Week **2** on the timetable on 01.06.20

Weekly Pastoral Team Bulletin

A lot of useful information is shared in the bulletin by the Pastoral Team, which offers support to your child, during this difficult time.

Nationwide survey of children and young people

The Welsh Government, in partnership with the Children's Commissioner for Wales, Children in Wales and the Youth Parliament have launched an online survey to make sure that we hear and listen to what children and young people have to say about the Coronavirus pandemic and the changes that have occurred as a result.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

This is an opportunity for children and young people to tell Welsh Government how they've felt about lockdown: how it's impacted on their health; any worries they've had; how they think it might affect their education; and also any positives they've had from it.

The survey has been developed and tested with children and young people.

It will help Government to respond in the best way to the situation as it develops, and to inform how they work with and talk to children and young people during this crisis and beyond. We need your help to ensure that as many children as possible have a chance to have their say.

Please note that the survey makes clear where children can seek help if they are affected by any of the topics in the survey.

We'd expect it to take children 15 minutes to complete and they can do it on any device by following the link, which will close on 27th May. The aim is to publish results as soon as possible after the survey closes

Please see link to the survey here: www.childcomwales.org.uk/coronavirusandme

Penweddig digital newsletter – May issue 2020

The digital newsletter “Pobl Penweddig” is available for you to read on our website. I would like to thank Mrs Rachel Jenkins and Miss Hawis Lloyd for collecting the articles and editing the May issue. A big thank you to Mr Jonathan Brayley who has been responsible for the new newsletter format using “PagePlus”. The newsletter celebrates and raises awareness of the experiences of our learners, staff and parents. Have a look and catch-up on our latest news.

Farewell to school staff

Mrs Sian Richards will be leaving us at the end of this half-term. I would like thank Mrs Richards for her valuable contribution to Penweddig over the years. We wish her the very best in her new post at Coleg Ceredigion. We hope that we will be able to formally say farewell sometime in the future.

You will receive correspondence from me to inform you of the latest news and developments on Friday, 5 June. You are also welcome to e-mail me via ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

As it is the Whitsun holidays next week, we do not expect pupils to complete school tasks.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

I hope that you will have an enjoyable half-term holiday with your family, taking part in various activites and enjoying each other's company.

Look after yourselves and keep safe.

Sincerely,

Rhian Morgan
Acting Headteacher